

Archifdy Sir Gâr

Rheolau'r Ystafell Chwilio

Pan yn defnyddio'r ystafell chwilio, gofynnwn i chwi gadw at rai rheolau syml. Bwriad y rheolau yw diogelu'r dogfennau a sicrhau eu cadw i'r dyfodol ac fe'u bwriadwyd hefyd er mwyn annog amgylchedd gwaith cynhyrchiol. Mae'r rhan fwyaf o'r eitemau a roddir allan i chwi yn unigryw ac o'r herwydd rydym yn gofyn i chwi eu trin a'u trafod gyda'r parch a'r gofal priodol.

- Rhaid i bob ymwelydd ddangos tocyn darllen i weld y dogfennau gwreiddiol.
- Rhaid diffodd pob ffôn symudol yn yr ystafell chwilio.
- Ni cheir defnyddio dim ond pensiliau i gymryd nodiadau - ni chaniateir defnyddio beiros ac offer miniog (megis sisyrnau) yn yr ystafell chwilio.
- Rhaid rhoi popeth personol, ar wahân i bensiliau a phapur, yn un o'r loceri sydd ar gael.
- Ni chaniateir ysmygu, yfed na bwyta (hyd yn oed pethau da) yn yr ystafell chwilio.
- Er mwyn helpu i ddiogelu'r dogfennau ni fyddwn yn rhoi dim ond un eitem allan ar unrhyw amser.
- Rhaid trin y dogfennau gyda'r gofal mwyaf. Peidiwch â phwyso arnynt, os gwelwch yn dda, na rhoi mwy o bwysau nag sydd raid. Mae pwysau ac offer dal cyfrolau ar gael lle bo angen. Peidiwch â gwneud unrhyw farciau ar y dogfennau.
- Ni ddylech darfu ar drefn unrhyw ddogfennau mewn ffeil.
- Er mwyn osgoi unrhyw styrbans diangen, gofynnir i ddefnyddwyr yr ystafell chwilio gadw lefel resymol o ddistawrwydd.

Diolch yn fawr